# Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn

**Heol y Bardd, Porth Tywyn,**
**Sir Gaerfyrddin SA16 0NL**
**Ffôn:- 01554 832101**
**Ebost: admin@parcytywyn.ysgolccc.cymru**
**www.ysgolparcytywyn.co.uk**
**Pennaeth / Headteacher : Mrs A Williams**


30/03/23

Annwyl Riant a Theulu,

Rydym yn eich gwahodd i fynychu cyflwyniad rhiant 1 awr yn yr ysgol ar Ddydd Gwener Ebrill 21ain am 9yb yn neuadd yr ysgol.

Fel ysgol rydym yn cyflwyno dulliau adferol, sy'n fodel ar gyfer adeiladu, cynnal a trwsio perthnasoedd a hefyd datblygu deallusrwydd emosiynol y plant.

Newydd ddechrau ar y gwaith hwn yr ydym ac roeddem am rannu pa fanteision y bydd hyn yn eu rhoi i holl blant yr ysgol.

Bydd y cyflwyniad yn cael ei roi gan y tîm sy'n ein cefnogi i ddod yn adferol, a bydd yn sesiwn ryngweithiol lle byddwch yn gallu gweld rhai o'r syniadau allweddol ar waith, cael gwrandawiad i'ch anghenion, a gallu gofyn unrhyw gwestiynau sydd gennych.

Rwy'n meddwl ei bod yn bwysig dweud na fydd y daith hon yn atal dim o'r dysgu arferol y bydd eich plant yn ei dderbyn ond yn gwella'r ffordd yr ydym yn rhyngweithio o ddydd i ddydd.

Mae'r llythyr hwn yn cael ei anfon at bob gwarcheidwad yn yr ysgol, a byddem wrth ein bodd pe baech yn mynychu. Os na allwch wneud hynny, bydd fideo byr yn cael ei ddarparu fel bod gennych rywfaint o ddealltwriaeth o'r dull adferol.

Os hoffech fynychu, cwblhewch y ffurflen isod fel ein bod yn gwybod i'ch disgwyl.

https://forms.office.com/e/1P66jpNrHY

Cofion cynnes,

*AWilliams*

Mrs A Williams
Pennaeth / Head Teacher

Partneriaeth Gweithredu Adferol Cymru
Wales Restorative Approaches Partnership